PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 15 Gorffennaf, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd Mrs. P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson and Ms. S. Sivagnanam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) a P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth)

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.W. Thomas.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. Y DIWEDDARAF AM CORONAFEIRWS (CYF) –

ARGYMHELLIR - Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r Atodiad

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD yr adroddiad yn cael ei nodi gyda'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod fel isod ac yn cael ei gyfeirio at y swyddog perthnasol fel y bo'n briodol a

bod yr ymatebion i ymholiadau a godwyd yn cael eu hanfon at Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth:

- South Lodge – y dyddiad yr oedd yn debygol o agor;
- Ymgynghori â'r Cynghorwyr Ms. R. Sivagnanam a N.C. Thomas fel aelodau'r Ward Lleol ar gyfer Y Cymin ar unrhyw opsiynau i'w nodi ar gyfer defnyddio'r Cymin;
- Pafiliwn Pier – bod rhaglen ddigwyddiadau pan gaiff ei pharatoi yn cael ei hanfon at yr Aelodau er gwybodaeth

Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CAU CYFRIFON 2020/21 (CYF) –

ARGYMHELLWYD -

(1) nodi'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) y dylid diolch i swyddog Adran 151 a'r Tîm Cyllid am adroddiad rhagorol ac yn arbennig ei gynnwys clir.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gwaith caled a wnaed gan y Tîm Cyllid.

EITEM AGENDA 7. MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2021 (CYF) –

ARGYMHELLWYD - nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi bod y sefyllfa yn adlewyrchu'r cynnydd ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

EITEM AGENDA 8. MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2021 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – nodi'r cynnydd a wnaed ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi bod y sefyllfa yn adlewyrchu'r cynnydd ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

EITEM AGENDA 9. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2020/21 (RG) –

ARGYMHELLWYD

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) Y dylid diolch i'r Tîm Gwella a Datblygu am eu gwaith caled wrth gynhyrchu'r adroddiad gan roi sylw arbennig i lefel y manylder sydd ynddo.

(3) BOD adroddiad diweddaru ar waith y Ganolfan Gyswllt gan gynnwys datblygiad ei blatfform profiad cwsmeriaid digidol newydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl cyfnod yr haf.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad

(3) I'w ystyried gan y Pwyllgor.

EITEM AGENDA 10. ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF OLRHAIN 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) -

ARGYMHELLWYD

(1) BOD statws y camau gweithredu a restrir fel wedi eu cwblhau yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei dderbyn, ynghyd â statws Cofnod rhif 137, nodi bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Aelodau wedi'i hanfon ar 15 Gorffennaf 2021 drwy e-bost.

(2) BOD Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo a'i lanlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar ychwanegu y dylid cyflwyno adroddiad ar waith y Ganolfan Gyswllt gan gynnwys datblygu ei rhyngwyneb i'r Pwyllgor yn hydref 2021.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.